ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y GRŴP TECHNEGOL RHANBARTHOL

Nodiadau cyfarfod dydd Iau 11eg Rhagfyr 2003, am 2.00pm
Canolfan Ddinesig Penllergaer

Yn bresennol

Geoff White (Cadeirydd)	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Vaughan Thomas	CBS Castell-nedd Port Talbot
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (DO Cymru)
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Phil Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cathy O'Brien	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

1. **Ymddiheuriadau**

Alban Forster	SLR Consulting Ltd
Ruth Henderson	Dinas a Sir Abertawe
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Philip Marks	CYLCH
Bleddyn Jones	Cyngor Sir Ceredigion

2. **Nodiadau cyfarfod 28ain Tachwedd 2003** - Nodwyd

3. **Y mathau o gyfleusterau sydd i'w hystyried yn is-ranbarthol:**

Cadarnhaodd GW y byddai'n rhaid cytuno ar atodiad i'r CGRh i ddelio â chyfleusterau is-ranbarthol yn ystod y 6 mis nesaf ac y byddai'n rhaid cael consensws ar y math o gyfleusterau y dylid eu cynnwys.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ar y canlynol.

- ***Tirlenwi***: cytunwyd bod hwn yn gyfleuster is-ranbarthol;
- ***TBM***: cytunwyd bod hwn yn gyfleuster is-ranbarthol. Mae angen cael barn swyddogion y chwe awdurdod gwastraff trefol yn y rhanbarth;
- ***Compostio***: Cytunwyd y gellid cael cyfleusterau is-ranbarthol ar gyfer ffrydiau gwastraff Masnachol a Diwydiannol; ond nid felly ar gyfer gwastraff trefol;
- ***Eco-Barc*** (gan gynnwys cyfleusterau i drin deunyddiau ailgylchadwy etc.): cytunwyd nad yw hwn yn gyfleuster gwastraff fel y cyfryw;
- ***Gwastraff Peryglus:*** cytunwyd bod hwn yn gyfleuster is-ranbarthol. Nodwyd bod dau safle posib yn y rhanbarth sy'n gallu trin gwastraff peryglus, ond nid yw'r rhain yn borth agored ar hyn o bryd.

Nodwyd y pwyntiau canlynol.

- Bydd datblygu unrhyw gyfleuster is-ranbarthol yn ddibynnol ar rym y farchnad;
- O ran gwastraff peryglus, mae angen mwy o ymchwil i faint y broblem a bod yn glir ynghylch yr

hyn y mae angen i ni gynllunio ar ei gyfer;
- Mae Fforwm Gwastraff Peryglus Cymru Gyfan ddydd Mawrth 13eg Ionawr 2004;
- Mae Corus wedi awgrymu y byddant yn parhau i drin eu gwastraff peryglus eu hunain;
- O ran compostio, mae'r awdurdodau lleol yn hyrwyddo'r cyfleusterau sy'n ymwneud â gwastraff trefol, ond diwydiant sy'n hyrwyddo'r ffrydiau gwastraff eraill;
- O ran datblygu cyfleusterau, mae angen ymchwil i arbedion maint. Bydd cyfleusterau mwy yn fwy cost-effeithiol.

4. **Sut i ddatblygu hyn?**

Rhoddodd GW amlinelliad o'r opsiynau posib ar gyfer datblygu. Nodwyd y pwyntiau canlynol.

- Wrth ystyried tirlenwi, gallai'r man cychwyn ymwneud â nodi safleoedd gwag a chyfleoedd codi tir, nodi'r llwybrau cludiant da ac astudio daeareg a hydroddaeareg y rhanbarth. **Gweithredu**: CO i drafod cynhyrchu map o'r rhanbarth gydag AY;
- Mae angen ymchwil sylweddol e.e. astudiaeth ymarferoldeb;
- Er mwyn defnyddio LANDMAP byddai'n rhaid rhoi sylw llawn ar draws yr holl ranbarth;
- Posibilrwydd o ddefnyddio proses o asesu opsiynau yn erbyn cyfres o ddangosyddion (yn debyg i gyflenwad a galw crynswth);

Cytunwyd ar y canlynol.

- Gwahodd Catherine Peasley (ADC – Swyddfa Aberystwyth) i'r cyfarfod nesaf. **Gweithredu**: GW.
- Cysylltu ag Adrian Stewart (CGAC - WESA) i drafod 'meysydd diddordeb' o ran tirlenwi. **Gweithredu**: GW.
- Cadarnhau a oes terfynau rhanbarthol tebyg yn bodoli yn y fforymau Datblygu Economaidd. **Gweithredu**: GW.

5. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cadarnhawyd y byddai'r cyfarfod nesaf am 2.00pm, dydd Gwener 23ain Ionawr, Canolfan Ddinesig Penllergaer.

6. **Unrhyw Fater Arall**

Yng ngoleuni'r CGRh sy'n datblygu, gofynnodd SM am y diweddaraf ynghylch sefyllfa'r CDUau unigol.

Castell-nedd Port Talbot: cadarnhaodd GW ei bod yn debygol y byddai'r materion yn y CGRh yn cael eu cynnwys yn y CDU.
Ceredigion: GD i adrodd yn ôl.
Bannau Brycheiniog: dywedodd RB y byddai elfennau o'r CGRh yn cael eu cynnwys.
Caerfyrddin: NB i adrodd yn ôl.